**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**19 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Iau 19 Hydref 2017.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Andy Dunbobbin, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Mared Eastwood (ar ran Hilary McGuill)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Marion Bateman. Roedd Paul Goodlad a Richard Hayward o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod fel rhan o adolygiad parhaus Trosolwg a Chraffu.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid; Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol ac Asedau; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); a Rheolwr Cyllid, Cyfrifo a Systemau Corfforaethol

Rheolwr Rhanbarthol, Cynllunio at Argyfwng (ar gyfer cofnod rhif 29)

Uwch-Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; a Rheolwr Cyllid, Gwasanaethau Cymunedol (ar gyfer cofnod rhif 30)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 27. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017.

Soniodd y Cynghorydd Arnold Woolley y dylai agendâu fod ar gael cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn caniatáu i Aelodau gyfrannu'n llawn at y cyfarfod. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd wedi bod yn bosibl anfon agendâu drwy'r post o fewn y terfyn amser ar yr achlysur hwn, ond bod yr agenda wedi'i gyhoeddi ar-lein o fewn y terfyn amser statudol a oedd yn rhoi tri diwrnod gwaith clir o rybudd.

Ar gofnod rhif 21, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones fod ei bryderon wedi cael eu hadlewyrchu yn y cofnodion ond nad oedd ei ddatrysiad ychwanegol wedi cael ei gynnwys. Dywedodd fod ei gynnig 'i sicrhau fod cefnogaeth i seilwaith pob un o drefi Sir y Fflint yn deg' wedi cael cefnogaeth unfrydol gan y

Pwyllgor. Dywedodd nad oedd hyn yn cael ei grybwyll chwaith yn yr adroddiad dilynol i'r Cabinet a oedd yn gwneud iddo feddwl tybed a oedd ei sylwadau wedi cael eu hystyried gan y Cabinet.

Er bod y Cynghorydd Aaron Shotton yn cytuno â buddsoddiad teg ar draws pob ardal, nid oedd hyn yn ymarferol gan fod amodau ynghlwm wrth gyllid grant a dim ond ardaloedd penodol sy'n gallu cyflawni'r amodau hyn, er enghraifft cyllid Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Roedd yn cofio bod y Pwyllgor wedi derbyn ei esboniad yn y cyfarfod.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod esboniad wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion ac na allai'r Cynllun gynnwys ymrwymiadau nad ydynt yn hyfyw. Cadarnhaodd fod pryderon y Cynghorydd Jones wedi cael eu hadrodd ar lafar i'r Cabinet a'r Cyngor Sir a bod cywirdeb y cofnodion yn fater i'r Pwyllgor ei bennu.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Heesom, cadarnhawyd y byddai'r sesiwn briffio Aelodau ynglŷn â Bargen Twf Gogledd Cymru yn cael ei gynnal cyn y Nadolig. Dywedodd y Cynghorydd Shotton y byddai'r cyfarfod briffio yn helpu i esbonio'r natur strategol a'r manteision economaidd i Sir y Fflint gyfan.

Esboniodd y Cynghorydd Jones mai nod ei ddatrysiad ychwanegol oedd cynnal dadl a herio'r mater, ac i ystyried cyfleoedd ar gyfer ffynonellau ariannu eraill a allai fod ar gael, er mwyn bod o fudd i ardaloedd nad ydynt yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer cymorth grant.

Cynigodd y Cynghorydd Woolley fod y cofnodion yn cael eu newid i adlewyrchu datrysiad ychwanegol y Cynghorydd Jones, ac eiliwyd hynny'n briodol. O'i roi i'r bleidlais, collwyd y gwelliant.

Ar gofnodion rhifau 21 a 22, tynnodd y Cynghorydd Woolley sylw at nifer o wallau teipograffyddol.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau gan y Cynghorydd Woolley, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 29. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUNIO AT ARGYFWNG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar drefniadau cynllunio at argyfwng rhanbarthol a gwahoddodd y Rheolwr Rhanbarthol i roi cyflwyniad ynglŷn â'r meysydd canlynol:

- Cefndir
- Trosolwg o'r gwasanaeth
- Gweithgareddau rhanbarthol
- Trosolwg o Sir y Fflint
- Gweithgareddau diweddar yn Sir y Fflint
- Gweithgarwch yn y dyfodol

Roedd y gwasanaeth rhanbarthol cwbl integredig a gynhelir gan Sir y Fflint ac roedd yn gysylltiedig â'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a oedd yn cynnwys

ymatebwyr Categori 1 a 2, a gynhelir gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y model cost effeithlon a chryf a weithredir gan y gwasanaeth yn unigryw yng Nghymru ac roedd yn cael ei weld fel arfer da gan ardaloedd eraill. Cafwyd diweddariad ar weithgareddau rhanbarthol i gryfhau trefniadau, ynghyd â chynnydd ar drefniadau mewnol y Cyngor gan gynnwys golwg cyffredinol o'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Patrick Heesom, esboniodd y Rheolwr Rhanbarthol fod gwaith yn cael ei arwain gan risg a chytunodd siarad â'r Cynghorydd Heesom ar wahân ynglŷn â threfniadau arian at raid i safle masnachol dosbarthol ym Mostyn. Siaradodd hefyd am y cyfle i gynnig gwasanaethau cadernid masnachol i fusnesau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Arnold Woolley at fethiant y system ffonau i ymdopi â'r galw yn ystod tywydd garw diweddar a holodd ynglŷn â chamau ataliol. Rhannodd y Prif Weithredwr bryderon am y nam dros dro hwn a sicrhaodd fod camau dilynol yn cael eu cymryd. Dywedodd fod cynlluniau parhad busnes yn cael eu profi ac y byddai'n darparu mwy o wybodaeth ar ddyddiad diweddarach.

Rhoddodd y Rheolwr Rhanbarthol a'r Prif Weithredwr eglurhad i'r Cynghorydd Haydn Bateman ynglŷn â gweithdrefnau profi larymau a threfniadau cyfathrebu mewn cysylltiad â ffatri Synthite gerllaw.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr Paul Cunningham a Paul Johnson, rhoddwyd esboniad am y gweithdrefnau a threfniadau profi gyda Network Rail fel ymatebwr Categori 2.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y diweddariad yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn y dyfodol ar barodrwydd y Cyngor i gynllunio at argyfyngau ac adroddiadau dilynol penodol i unrhyw ddigwyddiadau brys mawr lleol neu ranbarthol y mae gofyn i'r Cyngor ymateb iddynt.

## 30. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM UN Y GYLLIDEB 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn gosod allan y sefyllfa rhagolwg ariannol presennol ar gyfer 2018/19 er mwyn ceisio barn ar Gam 1 cynigion cyllideb refeniw Cronfa'r Cyngor. Roedd opsiynau cyllideb ar gyfer pob portffolio gwasanaeth wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol, gan nodi fod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru (LlC) o setliad llywodraeth leol dros dro yn newidyn allweddol yn y rhagolwg ariannol.

Rhannwyd nodyn briffio gan swyddogion ynghylch canlyniad y cyhoeddiad setliad, ynghyd â gwybodaeth a ddosbarthwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Roedd trafodaethau yn ystod y broses gyllidebu wedi cynhyrchu pryderon eang ynglŷn ag effaith gostyngiadau pellach ar gadernid gwasanaethau, fel y

dangoswyd gan lefelau asesiadau risg. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad wedi codi i opsiynau arbedion yn y gyllideb a oedd yn gyfanswm o ryw £3m, ac eithrio arbedion o £35,000 ar gyfer y Gwasanaeth Cerddoriaeth ar gyfer model gwasanaeth newydd sydd yn dal i gael ei ddatblygu.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) grynodeb o'r arbedion a gyflawnwyd yn ei bortffolio, gan nodi fod rhai elfennau o'r gyllideb y tu allan i reolaeth y Cyngor. Roedd mwyafrif helaeth yr arbedion a gynlluniwyd eisoes wedi cael eu cyflawni a oedd yn golygu y byddai arbedion pellach yn beryglus i lefelau gweithredu. Mae'r wybodaeth feincnodi yn dangos fod gwasanaethau yn gweithredu ar yr un lefel costau cyfartalog neu ar lefel costau cyfartalog is nag awdurdodau cyffelyb.

Dywedodd yr Uwch-Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod arbedion yn ei phortffolio hi wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i ailstrwythuro mawr a adawodd y gwasanaeth yn gweithredu ar lefel optimaidd. Roedd perygl y byddai arbedion pellach yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i ateb galw mawr y gweithlu eang.

Ar ôl cyflawni mwyafrif yr arbedion a gynlluniwyd drwy newidiadau strwythurol a meddalwedd newydd, dywedodd y Rheolwr Cyllid, Cyfrifo a Systemau Corfforaethol fod gwaith yn parhau i gyflawni'r £200,000 sy'n weddill. Roedd pwysau mawr ar y gwasanaeth, yn arbennig yng ngoleuni sefyllfa ariannol newidiol y Cyngor.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid, Gwasanaethau Cymunedol drosolwg o arbedion a ddarparwyd yn y Gwasanaethau Cwsmeriaid, Refeniw a Budd-daliadau a Hawliau Lles, a gynhyrchwyd yn bennaf drwy wasanaeth Sir y Fflint yn Cysylltu. Siaradodd am ddatblygiad gwasanaethau digidol ar gyfer rhoi mynediad i gwsmeriaid a gwella'r Gwasanaeth Cofrestru a oedd yn perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol.

Roedd swyddogion yn cynnal dadansoddiad manwl o ganlyniad y setliad ac yn aros am wybodaeth am grantiau penodol. Yn dilyn y rhagolwg dechreuol sef bwlch rhagamcanol o £11.7m, byddai'r gostyngiad o 0.9% mewn cyllid yn creu cynnydd o £1.9m yn y bwlch yn y gyllideb a byddai cyfrifoldebau newydd dros ddyletswyddau digartrefedd yn bwysau ychwanegol. Rhagamcanwyd hefyd y byddai pwysau ychwanegol ar ardrethi annomestig cenedlaethol yn debygol o gael effaith net o £64,000. Ar grynodeb o chwyddiant, roedd y cynnydd rhagamcanol mewn costau nwy yn cael ei adolygu, yn dilyn her. Yr unig arbedion newydd i'r Gwasanaethau Corfforaethol oedd £0.010m mewn Rheoli Cofnodion.

Gofynnodd y Cynghorydd Richard Jones a oedd y budd i'r Cyngor o gasglu'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn gorbwyso'r adnoddau sy'n ofynnol i wneud hyn. Esboniodd y Prif Weithredwr fod perfformiad cynghorau unigol ar dargedau casglu yn effeithio ar ailddosbarthiad cyllid ledled Cymru. Roedd y model gweithredu darbodus hwn yn Sir y Fflint wedi cael ei gydnabod. Wrth feincnodi darpariaeth gwasanaeth TGCh, dywedodd y Prif Swyddog fod costau uned yn is na'r cyfartaledd gyda gwariant yn fwy eang ar draws y Cyngor i gefnogi lefelau uwch o weithio ystwyth. Roedd hwn yn duedd parhaus, gyda

chefnogaeth y strategaeth ddigidol, i helpu i gyflawni arbedion mewn meysydd eraill.

Cododd y Cadeirydd ymholiad ynglŷn ag ardrethi busnes adeilad Neuadd y Sir a chafodd ei hysbysu y byddai adroddiad cyfrinachol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

Cydnabuwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom fod opsiynau cyllideb yn cyrraedd cyfnod hanfodol ond cododd bryderon am effaith unrhyw drefniadau gweithredol posibl i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â 'meysydd diffygiol'. Gofynnodd hefyd ynglŷn â threfniadau wrth gefn i reoli'r cynnydd mewn chwyddiant. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor heb unrhyw gynlluniau newydd yn eu lle i gydweithio a bod trafodaethau rhanbarthol yn parhau i fod ar agor. Dywedodd y Cynghorydd Shotton na ellid datrys gostyngiadau ariannol gan lywodraeth genedlaethol na'r cynnydd mewn pwysau trwy rannu cyfrifoldebau rheoli â chynghorau eraill. Cyfeiriodd at y datganiadau cadernid ar draws gwasanaethau, llawer ohonynt wedi cael eu hasesu fel rhai 'oren', a galwodd ar Aelodau i fyfyrio dros oblygiadau cam nesaf y broses gyllidebu. O ran Neuadd y Sir, dywedodd fod gan y Cyngor ddyletswydd ymrwymedig i edrych ar faint ac effeithlonrwydd ei adeiladau er mwyn nodi arbedion go iawn.

Mewn ymateb i sylwadau ynglŷn ag arian wrth gefn, atgoffodd y swyddogion mai dim ond un waith y gellid defnyddio'r rhain a bod protocol ar gyfer penderfyniadau ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Cynhwyswyd diweddariad fel rhan o adroddiad monitro'r gyllideb refeniw.

Yn dilyn pryderon y Cynghorydd Arnold Woolley ar effaith materion cynhwysedd mewn Cyfrifon Taladwy, esboniwyd fod y tîm bellach yn fwy darbodus ond nid oedd hyn yn golygu unrhyw berygl i sefyllfa llif arian mentrau bach a chanolig.

Tynnodd y Cynghorydd Paul Johnson sylw at y cyfeiriad at natur anrhagweladwy chwyddiant yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Esboniodd swyddogion fod dull gwaith yn seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio gyda chwyddiant a bod rhagamcanion yn seiliedig ar ddeallusrwydd cenedlaethol a briffiau rheolaidd gydag ymgynghorwyr arbenigol.

Siaradodd y Cynghorydd Jones ynglŷn â'r cyllid a roddwyd gan LlC i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac nad oedd wedi gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth hwnnw. Gan hynny, ymddengys yn rhesymegol ailystyried dyraniadau i gynghorau. Dywedodd y Cynghorydd Shotton fod y setliad dros dro yn fater ar wahân i'r fformiwla ariannu. Esboniodd y byddai'r Cyngor yn parhau i gyflwyno achos i LlC am werth gofal cymdeithasol a'i fuddion i'r Gwasanaeth Iechyd. Soniodd y Cynghorydd Jones am y cysylltiadau rhwng y fformiwla ariannu a chyfrifiad yr Asesiad O Wariant Safonol (SSA) a gofynnodd a oedd dangosyddion allweddol ar goll i gefnogi achos cyllid y Cyngor i LlC. Mewn ymateb, dywedodd y Cynghorydd Shotton fod angen llais unedig gan lywodraeth leol yng Nghymru.

Yn dilyn sylwadau gan y Cadeirydd, dywedodd y Prif Weithredwr bod amcangyfrifon poblogaeth yn cael eu defnyddio ar lefel cenedlaethol i hysbysu ynglŷn â dosbarthu cyllid.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Heesom iddo geisio newid y cyfrifiad SSA, dywedodd y Cynghorydd Shotton fod angen dull gweithio ar y cyd rhwng cynghorau yng Nghymru er mwyn cryfhau'r achos cenedlaethol.

Cytunodd y Cynghorydd Jones fod ffigwr y setliad a'r fformiwla ariannu yn wahanol a bod dosbarthiad y ddau yn fater allweddol. Tynnodd sylw at y ffaith na ddylai'r Cyngor ddibynnu'n gyfan gwbl ar y fformiwla ariannu i wneud sylwadau i LlC.

Yn dilyn cynnig y Cynghorydd Johnson i dderbyn argymhellion yn yr adroddiad, eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi'u derbyn i unrhyw un o opsiynau Cam 1 i'w cyflwyno i'r Cabinet a bod y sylwadau a godwyd wedi cael eu nodi.

Cynigodd y Cynghorydd Jones fod y datrysiad yn cynnwys yr arbedion Rheoli Cofnodion ynghyd â rhai'r Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynigion cyllideb a phwysau ariannol Cam Un, a'r arbedion arfaethedig canlynol:

- Rheoli Cofnodion – gostyngiad yn nifer y cofnodion sy'n cael eu storio - £0.010m.
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid – byddai modelau gwasanaeth newydd i ddarparu mynediad digidol i gwsmeriaid yn creu arbedion o £0.050m.
- Sir y Fflint yn Cysylltu – gallai opsiynau i newid darpariaeth y gwasanaeth Cysylltu greu arbedion rhwng £0.056m a £0.112m yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir.
- Gwasanaethau Cofrestru – byddai incwm ychwanegol o godi tâl am ddatgan genedigaethau yn creu £0.012m ychwanegol.

## 31. AMRYWIAETH YN NHREFN YR AGENDA

Cytunwyd ystyried yr adroddiad monitro diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Refeniw fel yr eitem nesaf.

Oherwydd cyfyngiadau amser, cynigodd y Cynghorydd Patrick Heesom fod yr eitem ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn cael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Prif Weithredwr fod disgwyl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cabinet cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac y dylai Aelodau anfon unrhyw sylwadau at swyddogion. Byddai gweddill yr eitemau yn cael eu hystyried yn y drefn a ddangosir ar yr agenda.

## 32. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 5)

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18 fel yr oedd ym Mis 5 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Ar Gronfa'r Cyngor, rhagwelwyd y byddai'r sefyllfa net yn ystod y flwyddyn £1.348m yn uwch na'r gyllideb, sef cynnydd bach ers Mis 4. Crynhowyd newidynnau arfaethedig ym mhob portffolio ac roedd monitro risgiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys asesiad o risgiau newydd i bennu'r effaith ar 2018/19. Amcangyfrifwyd y byddai 92% o arbedion cynlluniedig yn cael eu cyflawni ac y byddai balans cronfeydd wrth gefn yn £3.734m erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar y Cyfrif Refeniw Tai, rhagamcanwyd y byddai gwariant yn ystod y flwyddyn £0.026m yn is na'r gyllideb, gan adael balans o £1.090m ar ddiwedd y flwyddyn sy'n uwch na'r lefel isaf a argymhellir.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Richard Jones, darparodd y Prif Weithredwr esboniad ar gyllid cylchol o'r Gronfa Gofal Canolraddol sef dyraniad newydd i'r gyllideb oherwydd ei fod wedi'i gadarnhau'n hwyr. Fel rhan o Gam 2 proses cyllideb 2018/19, byddai gofyn i Aelodau gefnogi cais am glustnodi'r cyllid hwn.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad monitro Cyllideb Refeniw 2017/18 (Mis 5) a chadarnhau nad oes unrhyw faterion i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.

## 33. POLISI'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Bolisi Drafft Y Gymraeg yn y Gweithle cyn gofyn i'r Cabinet ei fabwysiadu. Roedd yr ymrwymiadau yn y polisi yn adlewyrchu gofynion cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac roeddent yn gymesur i Sir y Fflint.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau, fodd bynnag roedd Aelodau'n gallu cyflwyno arsylwadau trwy e-bost at y Prif Weithredwr cyn i'r Cabinet ystyried y mater.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn sicrhau fod gwaith yn cael ei wneud i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg;

(b) Bod Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle yn cael ei nodi; a

(c) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau blynyddol ar waith a wnaethpwyd i gyflawni Safonau'r Gymraeg.

## 34. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai eitem ohiriedig ar adolygiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Datblygu'r Cynllun Lles yn cael ei chynnwys ar gyfer y cyfarfod nesaf. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda'r diwygiadau; a

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn cael amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

**35. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan ei bod yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 15 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**36. GWASANAETH ARGRAFFU DIGIDOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad i geisio barn am newidiadau arfaethedig o ganlyniad i ostyngiad yn y galw am wasanaethau argraffu. Yn dilyn dadansoddiad manwl o'r gwasanaeth, roedd ymarfer cystadleuol ar y cyd wedi'i gynnal â Chyngor Sir Ddinbych am gontract argraffu newydd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol trwy newidiadau strwythurol ac ymgynghorwyd â thimau ynglŷn â hyn.

Darparodd y Prif Swyddog eglurhad ar amrywiaeth o faterion megis cymharu costau ac effeithlonrwydd offer. Yn ystod trafodaeth am ddigwyddiad blaenorol, cytunodd ddarparu ymateb ar wahân ar y costau dan sylw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i benodi cronfa o gyflenwyr ar gontract dwy flynedd a fydd yn sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y telerau mwyaf manteisiol yn economaidd ar gyfer ei wasanaeth argraffu lliw ac nid oes ganddo unrhyw sylwadau i'w cyfeirio at y Cabinet; a

(b) Yng ngoleuni'r gostyngiad yn y galw am wasanaethau argraffu, bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i adolygu'r gwasanaeth Argraffu Digidol a strwythur dros dro'r sefydliad fel y dangosir.

**37. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.45pm)

………………………….
**Cadeirydd**